

Ychwaneg o Atgofion Hen Heddwas

gan Bert Parry

PAN ymddangosodd fy erthygl yn *Y Casglwr*, Gaeaf 2003, sylweddolais wrth edrych ar y darlun o orymdaith y Barnwr y dylwn fod wedi rhoi lle amlwg i beth oedd yn un o binaclau'r flwyddyn yn y dre'. Deirgwaith y flwyddyn, ymwelai'r barnwr â'r dre' i gynnal y Frawdlys (*Assizes*). Beth sy'n ddiddorol yw, os nad oedd achos iddo i'w glywed, anrhegid ef a phâr o fenyg gwyn i ddathlu'r ffaith. Rhaid dweud na welais hyn yn digwydd, ond deallaf y digwyddodd droeon yn Sir Feirionnydd.

Ein dyletswydd ni fel heddlu oedd hebrwng y barnwr o'i lety i'r llys ac o'r llys i'w lety, ac ar y diwrnod cyntaf i'r eglwys i gymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig i ofyn am fendith ar ei waith. Roedd hefyd yn arferol i brif ddisgybl yr ysgol breifat (*Ruthin School*) ymweld â'r barnwr yn ei lety i ofyn mewn Lladin am ganiatâd i gael diwrnod rhydd i'r ysgol. Cyn belled ag y gwn, ni wrthodwyd yr un cais erioed.

Hebrwng y Barnwr

Nid oedd hebrwng y barnwr yn golygu fawr o waith ychwanegol i ni am fod llety'r barnwr, yr eglwys a'r llys yn agos i'w gilydd. Cyn un brawdlys, deallwyd mai Pabydd oedd y barnwr. Roedd hyn yn achosi pryder i ni am fod yr Eglwys Babyddol dros filltir o'r llys. Penferfyndd y barnwr nad oedd am gael y gwasanaeth arferol. Wn i ddim hyd heddiw pam, ond hoffaf gredu mai o drugaredd â thraed yr hebryngwyr y daeth i'r penderfyniad hwnnw.

Yn rhan o'r pasiant cyfarchwyd y barnwr wrth ddrws y llys gan ddau mewn lifrau yn chwythu utgryn. Un tro roedd y ddau utganwr ar fin chwythu eu cyfarchion pan fethwyd â chael yr un nodyn o'r utgryn, ac er chwythu a chwythu, bu'n rhaid iddynt o'r diwedd sefyll o'r neilltu mewn distawrwydd. Darganfuwyd yn ddiweddarach fod rhywun wedi ymyrryd â'r utgryn drwy wthio cyrc i'w crombil. Bu'r Arolygydd a'r Archwiliwr yn holi'n daer am amser ond ni ddaliwyd y dihiryn a gyflawnodd y fath drosedd.

Y Gwasanaeth

Cofiaf fynychu un o'r gwasanaethau arbennig yma yn yr eglwys, a'r heddwes oedd yn eistedd wrth fy ymyl, ar ôl codi'r Llyfr Gwasanaeth a geid ymhob sedd, yn dilyn y gwasanaeth yn Saesneg. Gan mai anghydfurfiwr oedd yr heddwes nid oedd yn gyfarwydd â ffurf y gwasanaeth eglwysig. Gwelwn ef yn ymbalfalu yn ei boced am ddarn arian. 'Be' ti'n neud?' gofynnais. 'Tr casgliad', atebodd. Wedi camgymryd mai hel casgliad oedd ystyr 'The collects'!

Roedd tymor dipio defaid yn amser prysur i heddwes cefn gwlad. Golygai y byddai mewn fferm am oriau i sicrhau fod y dip o ansawdd derbyniol a bod y gwaith yn cael ei wneud yn drwyadl. Weithiau os byddai'r criw yn brin, tynnai ei gôt i roi help llaw er mwyn cwblhau'r gwaith. Mae'n rhaid imi gyfaddef mai ond dwywaith yn unig yr ymgymerais â'r orchwyl yma. Dau dro tra gwahanol, ond yn werth eu dwyn i go'. Yn gyntaf, yr oedd y ffermwr wedi trefnu i archwiliwr ddod i ddipio ei ddefaid y bore wedyn ac y byddai yn galw amdanaf yn ei gar am chwech y bore. Roedd yn brydlon i'r funud a fwrdd â ni am y fferm. Wedi cyrraedd, dywedodd y ffermwr,

'Mae hi dipyn bach yn gynnar a thydi'r gweision ddim wedi cyrraedd eto.' Aeth â fi i'r tŷ i gyfarfod y wraig. 'Gawn ni banad cyn dechrau,' medde fo?

Wedi dechrau siarad â'i wraig, deallais fod ganddi ddiddordeb arbennig mewn beirdd a llenorion Cymraeg a Saesneg ac yn gyfarwydd



Gorymdaith y Barnwr i'r Llys.

â'u gweithiau. Dangosodd i mi ystafell, a alwai ei llyfrgell, a oedd yn llawn i'r ymylon o lyfrau clasurol a modern. Pan ar ganol fy argyhoeddi fod Keats yn fwy o fardd na Shelley, ymunodd y ffermwr â ni, a dywedodd,

'Aros di yma. Mi alwai arnat pan fyddwn yn barod i ddechrau.' A dyna ni. Ymhen y rhawg, dychwelodd tra'r roedd ei wraig yn cloriannu gweithiau beirdd Cymraeg.

'Gawn ni dipyn o frecwast,' meddai'r ffermwr? Wedi pryd o facwn cartref ac wy, dyma ddechrau ar waith y dydd. Buom wrthi am dair neu bedair awr cyn cwblhau'r gwaith. Yn ôl i'r tŷ eto am bryd arall a dôs arall o gangen yr oedd arbenigwr ar ddefaid a'u hafiechydon. Yn sgîl ei waith, ymwelai â sawl fferm yn y sir os byddai unrhyw anhwydeb ar y praid. O dro i dro, doi â dafad gartref i gadw golwg arni. Erbyn diwedd haf roedd ganddo ddiadell gymysg na allech ond eu galw yn HEINZ 57, ond i gadw o fewn y gyfraith, rhaid oedd eu dipio fel pob diadell arall. Roedd wedi trefnu i gael gwneud defnydd o gafn dipio cymydog am y terfyn â'r cae lle cadwai y defaid a galwodd arnaf fi i dystio i'r dipio. Y broblem gyntaf oedd cael y defaid cymysg yma at ei gilydd â'u gyrru i'r gorlan a oedd yn gysylltiedig â'r cafn dipio.

Cychwynnodd yr helfa yn ddigon didrafferth. Yr arbenigwr, ei gi a minnau yn cael hwyll go dda ar bethau, ond yn anffodus blinodd y ci ar y symud araf, wedi'r cwbl nid ci defaid oedd o ond Retriever du. Plannodd i ganol y defaid gan eu chwalu i bedwar ban byd. Roedd yr awyr yn ddu las a synnais fod cymaint o ansoddeiriau ar gael i ddisgrifio ci, rhai na fuaswn yn meiddio eu defnyddio mewn cymdeithas barchus. O'r diwedd, llwyddwyd i gorlannu'r defaid, a dyma ddechrau dipio unwaith eto. Roedd yr arbenigwr wedi ei wisgo ei hun mewn esgidiau rwber a dillad olew o'i ben i'w draed a'r dipio yn mynd yn ei flaen yn dda nes daeth yn dro i hwrdd Wiltshire, a oedd yn anferth o anifail. Nid oedd y syniad o fod dros ei ben mewn dip yn apelio ato, a dyma groes dynnu gwyllt rhyngddo â'r arbenigwr. Fel y gellwch feddwl, roedd y llawr teils o amgylch y cafn

yn wlyb a llythrig. Colodd yr arbenigwr ei draed a syrthiodd ar ei ben i'r cafn, a'r hwrdd yn rhydd a buddugoliaethus. Os oedd yr awyr yn ddu las o'r blaen, roedd yn nos dywyll y tro hwn wedi i'r arbenigwr gael ei drochfa. Rhaid oedd gohriro'r perfformiad i roi cyfle iddo fynd adref i newid ei ddillad. Pwy fuasai'n meddwl y gallai dipio defaid fod yn waith mor beryglus!

Weithiau yn y Llys Ynadon clywech rywbeth annisgwyl a doniol.

Ymddangosai un cymeriad yn gyson o flaen y llys. Ei broblem oedd ei fod yn orffond o'i ddiad, a'r cyhuddiad yn ei erbyn fyddai ei fod wedi meddwl ac yn afreolus, neu yn anabl. Bob tro yr ymddangosai yn y llys byddai yn ymddiheuro i'r ynadon ac yn addo gwella ei ymddygiad. Ar un o'i ymddangosiadau mynych, dywedodd wrth yr Ynadon,

'Rwy'n addo na wnaiff fy nghysgod byth eto dywyllu'r llys yma.'

Yr wythnos ddilynol, roedd eto o flaen y llys a dwedodd y cadeirydd wrtho,

'Yr wythnos diwethaf addewaist na fuasai dy gysgod byth yn tywyllu'r llys eto.'

'Eitha' gwir' oedd yr ateb, 'ond mae'n gymylog iawn heddiw a dydy'r haul ddim yn tywynnu.'

Un o'm diddordebau yn y cyfnod yma oedd pysgota Afon Clwyd. Er bod fy nghyfaill yn bysgotwr brwdfrydig, nid oedd yn un llwyddiannus iawn. Un diwrnod pan oeddem ar gychwyn allan i bysgota, siarsiodd ei wraig ef nad oedd i ddod gartref heb bysgodyn y tro yma. Yn anffodus, ddaliodd yr un ohonom bysgodyn y diwrnod hwnnw. Y broblem i'm cyfaill yn awr oedd sut i wynebu'r wraig yn waglaw. Cafodd weledigaeth, a galwodd yn y siop gwerthu pysgod a phrynodd ddau bysgodyn a'u cyflwyno iddi. Y bore wedyn, roedd ei wraig yn siarad â'r wraig drws nesaf.

'Wyddost ti be,' meddai, 'wyddwn i ddim fod penwaig i'w cael yn Afon Clwyd o'r blaen.'

Nid oedd plismona'n fêl i gyd. Byddai rhai achlysuron trist iawn fel damweiniau ffyrdd erchyll, marwolaethau sydyn a thebyg. Roedd un achlysur arbennig o drist pan gwmpodd awyren Americanaidd (B29) a oedd yn cael ei hedfan gan aelodau o'r RAE Lladwyd y criw o wyth. Nid hawdd anghofio alar eu teuluoedd. Daw geiriau Gwilym R. Jones i gof,

Ni ddaeth ond rhith y popi'n ôl.